# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Mawrth 2025

Amser: 09.30 - 11.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14855

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Andrew RT Davies AS (Cadeirydd)<br>Hannah Blythyn AS<br>Hefin David AS<br>Luke Fletcher AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Dylan Morgan, National Farmers' Union (NFU) Cymru<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Nicole Haylor-Mott (Dirprwy Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Ben Stokes (Ymchwilydd)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Katy Orford (Ymchwilydd)<br>Madelaine Phillips (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

## 1 Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru: Trafod y materion o bwys – Deepseek

1.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y materion allweddol a chytunodd arno.

1.2 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Ddeallusrwydd Artiffisial o ran Deepseek.

1.3 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i dynnu sylw at feysydd o'r gwaith sy'n croesi i gylch gwaith eu pwyllgor, yn ogystal â gwaith dilynol gyda Llywodraeth Cymru drwy ohebiaeth ysgrifenedig.

## 2 Trafod y Flaenraglen Waith

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y Flaenraglen Waith ar gyfer hanner olaf tymor yr haf 2025 a thymor yr hydref 2025, a chytunwyd ar y meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor fwrw ymlaen â hwy.

## 3 Adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod: Ystyried yr ymgynghoriad

3.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd a thrafod eu barn ar y pwnc er mwyn cyfrannu at ymateb.

## 4 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

4.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r sesiwn gyhoeddus, gan nodi bod y cyhoedd wedi'u gwahardd o eitemau 1, 2 a 3 o'r cyfarfod hwn, fel y cytunodd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) yn ei gyfarfod blaenorol ar 6 Mawrth 2025.

4.2 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Andrew RT Davies AS a Samuel Kurtz AS fuddiant mewn perthynas ag eitem 6.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

### 5.1 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

### 5.2 Concordat rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Llywodraeth Cymru

### 5.3 Dilyniant i gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2025 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

### 5.4 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

### 5.5 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

### 5.6 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

## 6 Hybu Cig Cymru - Panel 1

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dylan Morgan (Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU)), a Gareth Parry (Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)).

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 8 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 6.

## 9 Adroddiad Monitro Masnach Ryngwladol

9.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, a chytunodd i'w gyhoeddi fel diweddariad ciplun sy’n gywir ar hyn o bryd.

## 10 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad) – ystyried yr adroddiad drafft

10.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.